**Chwarter 2  Ward Dinefwr Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin**

**Arferion Da**

- Byrddau gwybodaeth diddorol i ferched sydd â phwyslais neilltuol ar fwydo ar y fron.
- Ymatebion merched i'r ddarpariaeth gofal a pharodrwydd bydwragedd a staff cymorth i helpu.
- Rhannu dysgu gwersi yn weladwy ac yn cael ei ddeall yn iawn gan staff.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae angen i ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau gael eu glanhau a'u monitro yn fwy gofalus yn ddyddiol.
- Mae angen i'r gwaith o storio cofnodion fod yn fwy diogel a chydymffurfio â pholisi lleol a chenedlaethol.
- Proffil uwch i oruchwyliaeth a sut/pam y gall merched hoffi cysylltu â goruchwyliwr.
- Tacluso'r ystafell ddydd i'w gwneud hi'n amgylchedd mwy deniadol.
- Bydwragedd i gymryd rhan fwy gweithredol mewn fforymau wardiau esgor.

**Chwarter  3** oedd yr ymweliad archwilio blynyddol a ddigwyddodd yn Ysbyty Glangwili, ac felly, nid oedd yna adroddiad Pyramid ar wahân.

**Chwarter 4 Uned Mamolaeth Ysbyty Cyffredinol Caerfyrddin**

**Arferion Da**

- Adroddiadau positif gan ferched ynghylch y model gofal.
- Amgylchedd gofal glân a thaclus ynghyd â rhai syniadau gwych ar gyfer datblygu gwasanaeth.
- Roedd y staff yn addysgedig, yn gyfoes â'r hyfforddiant ac roeddynt i gyd yn gwisgo gwisg briodol ac roedd modd eu hadnabod.

**Meysydd i'w gwella**

- Dylai gwirio troliau a chyfarpar brys gael sylw di-oed a dylid cyflwyno system ffurfiol o archwilio gwirio dyddiol gan y rheolwyr.
- Dylid cyflwyno byrddau gwybodaeth i ferched ynghylch pynciau addysgol ac ynghylch pa mor dda y mae'r gwasanaeth mamolaeth yn ymdopi o ran cyrraedd targedau lleol a chenedlaethol.
- Bwrdd goruchwyliaeth ym man y ward i ddiweddaru merched ar swyddogaeth goruchwylio, pam y gallent hoffi cysylltu â'r cyfryw wasanaeth a sut i wneud hynny.

